



www.ucac.cymru

Diwygio'r meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Iona Davies

Sefydliad (os yw'n berthnasol): UCAC

E-bost/rhif ffôn: iona@ucac.cymru

Eich cyfeiriad: UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2EU

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **19 Ionawr 2023** i:

Y Gangen Addysg Gychwynnol i Athrawon
Is-adran Addysgeg, Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

ITEducationAddysgGA@llyw.cymru

Cwestiwn 1

- i) A ydych chi'n gweithio fel rhan o'r broses o gyflwyno Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) neu'n cefnogi'r broses honno? (os nad ydych, ewch i iv.)

Ydw	<input type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
------------	--------------------------	----------------	--------------------------	-------------------------------------

- ii) Os gwnaethoch chi ateb 'Ydw', ym mha fath o leoliad/sefydliad ydych chi'n gweithio?

Partneriaeth AGA – sefydliad addysg uwch	<input type="checkbox"/>	Awdurdod lleol	<input type="checkbox"/>
Partneriaeth AGA – ysgol gynradd	<input type="checkbox"/>	Consortiwm rhanbarthol	<input type="checkbox"/>
Partneriaeth AGA – ysgol uwchradd	<input type="checkbox"/>	Corff rheoleiddio (yn cynnwys arolygiaethau)	<input type="checkbox"/>
Partneriaeth AGA – ysgol pob oed	<input type="checkbox"/>	Llywodraeth	<input type="checkbox"/>
Partneriaeth AGA – ysgol arbennig	<input type="checkbox"/>	Arall (manylwch os gwelwch yn dda)	<input type="checkbox"/>

- iii) Beth yw eich prif rôl chi?

Addysgwr athrawon/mentor athrawon dan hyfforddiant – mewn sefydliad addysg uwch	<input type="checkbox"/>	Swyddog Cymorth ANG/sefydlu	<input type="checkbox"/>
Addysgwr athrawon/mentor athrawon dan hyfforddiant – mewn ysgol	<input type="checkbox"/>	Arolygydd	<input type="checkbox"/>
Arweinydd partneriaeth AGA – sefydliad addysg uwch	<input type="checkbox"/>	Swyddog monitro achredu	<input type="checkbox"/>
Arweinydd partneriaeth AGA – ysgol bartner arweiniol	<input type="checkbox"/>	Arweinydd partneriaeth AGA – ysgol bartner	<input type="checkbox"/>
Arall (manylwch os gwelwch yn dda)	<input type="checkbox"/>		<input type="checkbox"/>

- iv) Os nad ydych chi'n gweithio fel rhan o'r broses o ddarparu Addysg Gychwynnol Athrawon nac yn cefnogi'r broses honno, ym mha rinwedd yr hoffech chi roi adborth?

Rhiant/gofalwr	<input type="checkbox"/>	Cymdeithasau proffesiynol yn cynnwys undebau'r gweithlu addysg	<input checked="" type="checkbox"/>
Plentyn neu berson ifanc (o dan 18 oed)	<input type="checkbox"/>	Trydydd sector	<input type="checkbox"/>
Oedolyn (nid rhiant na gofalwr)	<input type="checkbox"/>	Darparwr hyfforddiant	<input type="checkbox"/>

Athro dan hyfforddiant	<input type="checkbox"/>	Llywodraeth	<input type="checkbox"/>
Athro newydd gymhwyso	<input type="checkbox"/>	Myfyriwr/academydd	<input type="checkbox"/>
Athro ysgol (nad yw'n gweithio fel addysgwr athrawon ar hyn o bryd)	<input type="checkbox"/>	Pennaeth (nad yw'n ymwneud â phartneriaeth AGA yng Nghymru ar hyn o bryd)	<input type="checkbox"/>
Arall (manylwch os gwelwch yn dda)	<input type="checkbox"/>		

v) A ydych chi'n darparu adborth ar ran sefydliad neu grŵp?

Ydw	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>
------------	-------------------------------------	----------------	--------------------------

Os 'Ydw', manylwch os gwelwch yn dda.

Rwyf yn darparu adborth ar ran UCAC (Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru)

Cwestiwn 2 – A ydych chi wedi darllen y ddogfen drafft 'Ymgynghoriad ar y meini prawf ar gyfer achredu addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru'?

Do	<input checked="" type="checkbox"/>	Naddo	<input type="checkbox"/>
-----------	-------------------------------------	--------------	--------------------------

Os gwnaethoch chi ateb 'Naddo' rydym yn argymhell eich bod yn darllen y ddogfen cyn parhau â'r holiadur.

Cwestiwn 3 – A ydych chi'n cytuno bod y diwygiadau i 'Adran A: Gweledigaeth ar gyfer addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru' yn y ddogfen yn egluro'r Weledigaeth ar gyfer AGA yng Nghymru a'r ffordd o feddwl ddeallusol sy'n ofynnol i gynllunio a chyflwyno rhaglenni AGA yn well?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau sy'n gysylltiedig â'ch ymateb, defnyddiwch y gofod hwn i ymhelaethu

Mae'r adran A newydd yn esbonio'n glir y newidiadau ym myd addysg a'r egwyddor sy'n sail i recriwtio a hyfforddi athrawon newydd. Mae'r pwyslais ar bwysigrwydd athrawon a'r cyfeiriad at 'broffesiynoldeb newydd' i'w groesawu, ond mae'n hollbwysig bod yr hyn a nodir yn y ddogfen yn cael ei ategu gan gamau gweithredu cadarnhaol a phendant.

Mae'r honiad canlynol 'y newid mwyaf sylweddol yw'r gydnabyddiaeth amlwg gan Lywodraeth Cymru bod y proffesiwn addysgu yng Nghymru yn allweddol er mwyn codi ansawdd dysgu ac addysgu yn ein hysgolion' yn un pwysig ac rydym yn falch o'r gydnabyddiaeth a roddir i'r proffesiwn. Sut mae hwn yn mynd i gael ei amlygu? A yw'r pwyslais newydd hwn yn mynd i arwain at ystyriaeth i lwyth gwaith ac amodau gwaith athrawon? Credwn fod hynny yn allweddol, er mwyn gwireddu'r weledigaeth, recriwtio digon o athrawon a'u cadw yn y proffesiwn.

Croesewir y datganiad canlynol: 'un o nodau canolog AGA yw datblygu'r proffesiynoldeb hwn yn y genhedlaeth nesaf o athrawon, gan sicrhau bod ganddynt y sgiliau, y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r ymrwymiad i barhau fel dysgwyr proffesiynol cydweithredol drwy gydol eu gyrfaoedd', ond fel y nodir uchod, mae'n bwysig bod yr amgylchiadau'n briodol ar gyfer datblygu'r proffesiynoldeb hwn. Mae'n braf gweld pwyslais ar gydweithio agos rhwng ysgolion a'r SAU. Rhaid felly bydd sicrhau bod amgylchiadau priodol yn cael eu neilltuo ar gyfer meithrin y cydweithio hwn a sicrhau bod pwyslais digonol ac amgylchiadau priodol yn cael eu darparu ar gyfer 'cwestiynu, addasu a gwella' a hynny gydol gyrfa.

Mae'r pwyntiau yn adran 2 – **Gweledigaeth o'r modd y mae athrawon dan hyfforddiant yn dysgu** – wedi eu mynegi'n glir ac yn cyflwyno'r elfennau amrywiol mewn modd rhesymegol, ond mae'n siom na cheir unrhyw gyfeiriad at addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, addysg ddwyieithog. Mae nifer o gyfleoedd amlwg wedi eu colli yma o ran y Gymraeg.

Nodir mai 'Nod y newidiadau yw egluro'r meddwl deallusol y tu ôl i'r Weledigaeth i'r darlennydd ac felly'r ffordd o feddwl sydd ei hangen i gynllunio strwythur, cynnwys a chanlyniadau rhaglenni AGA.'

Mae'r rhesymeg y tu ôl i'r newidiadau yn cael ei esbonio, yr her yn awr fydd sicrhau bod y weledigaeth yn cael ei chyflawni. Bydd angen yr amgylchiadau priodol ar gyfer sicrhau hynny, drwy roi sylw gofalus i lwyth gwaith ac adnoddau.

Yn 5.3 cyfeirir at fathau 'eraill o ddyfarniadau (er enghraifft, cyrsiau hirach, graddau cydanrhydedd) neu gyrsiau ansafonol'. O ystyried bod y gair 'non-standard' o fewn dyfynodau yn y Saesneg, pam nad yw'r gair 'ansafonol' mewn dyfynodau yn y Gymraeg? Mae yna awgrym negyddol i'r gair 'ansafonol' yn y Gymraeg.

Gofynnir i bartneriaethau drafod gyda 'Llywodraeth Cymru a/neu Gyngor y Gweithlu Addysg' os ydynt am gyflwyno mathau eraill o ddyfarniadau. Oni fyddai'n well nodi un pwynt cyswllt, er mwyn sicrhau cysondeb.

Cwestiwn 4 – A ydych chi'n cytuno bod y diwygiadau i 'Adran B: strwythurau, prosesau, a mewnbynnau rhaglenni AGA' yn adlewyrchu'r diwygiadau addysgol yng Nghymru, yn gwneud y gofynion yn gliriach, ac yn datblygu'r gofynion ansawdd ar gyfer rhaglenni AGA yng Nghymru?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau sy'n gysylltiedig â'ch ymateb, defnyddiwch y gofod hwn i ymhelaethu.

Mae'r geiriad yn pwysleisio y dylai ysgolion y bartneriaeth gael eu cydnabod am 'ddarpariaeth o ansawdd uchel'. Sut y bydd hyn yn cael ei fesur?

Mae **4.2 Meini prawf ar gyfer cynnwys ysgolion yn y Bartneriaeth** yn cynnwys mwy o fanylion ac yn fwy penodol na'r ddogfen wreiddiol. O ran 4.2, buaswn yn hoffi gwybod sut mae ysgolion partner yn dangos fod 'effaith profiadau AGA a'i hegwyddorion yn cefnogi ac yn hyrwyddo gwelliant i'r ysgol gyfan'. Sut mae hyn yn cael ei fesur?

A fydd modd i staff SAU ymarfer eu sgiliau addysgu o fewn yr ysgolion partner, er mwyn sicrhau bod eu profiad o addysgu yn gyfredol. Pam y nodir 'ar y cyfan' wrth sôn am yr angen i bob addysgwr athrawon mewn SAU fod â phrofiad fel athrawon ysgol llwyddiannus? Ar ba sail y byddai eithriadau i'r egwyddor hon? Yn yr un modd, nodir 'Fel arfer, dylai addysgwyr athrawon mewn SAU fod yn ymwneud â gwaith ymchwil. Pam 'fel arfer'? Pryd na fyddent yn ymwneud ag ymchwil?

Croesewir y ffaith ei bod hi bellach yn ofynnol i Bartneriaethau AGA gael dulliau mwy strategol o ran y Gymraeg a'r ffaith bod 'annog ysgolion i symud ar hyd y continwmm ieithyddol' yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth. Fodd bynnag, os mai 'annog' yw'r gair a ddefnyddir o ran symud ar hyd y continwmm ieithyddol, nid oes unrhyw sicrwydd bod sefyllfa'r Gymraeg yn mynd i wella o fewn ysgolion. Onid oes angen rhywbeth cryfach na hyn er mwyn sicrhau deilliannau cadarnhaol o ran y Gymraeg? Mae hi'n amlwg bod gan athrawon ran bwysig i'w chwarae wrth i ni anelu at gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r ddogfen 'Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg' yn nodi targed o 70% o 'ddysgwyr yn gallu siarad Cymraeg ar ddiwedd eu haddysg statudol' erbyn 2050.' Rhaid cadw'r targedau hyn mewn cof, eu monitro a sicrhau fframweithiau a pholisïau cadarn, gyda lefel glir o atebolrwydd. Fel arall, mae gwir berygl na fyddant yn cael eu cyflawni.

Cwestiwn 5 – A ydych chi'n cytuno bod y diwygiadau i 'Adran C: Canlyniadau rhaglenni' yn adlewyrchu'r diwygiadau addysgol yng Nghymru, yn gwneud y gofynion yn gliriach, ac yn datblygu'r gofynion ansawdd ar gyfer AGA yng Nghymru?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	✓
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	---

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau sy'n gysylltiedig â'ch ymateb, defnyddiwch y gofod hwn i ymhelaethu.

Ymddengys fod ychydig mwy o eglurder yma, ond mae angen bod yn rhan o'r broses er mwyn gallu gwneud sylwadau manylach.

Cwestiwn 6 – A ydych chi'n cytuno bod y diwygiadau i'r adrannau canlynol:

- 'Rhestr termau'
- 'Cyfeiriadau'
- 'Atodiad 2: Gofynion mynediad ar gyfer athrawon dan hyfforddiant yng Nghymru'
- 'Atodiad 3: Safonau ar gyfer Statws Athro Cymwysedig – mwy o gyngor i bartneriaethau AGA wrth gynllunio rhaglenni'

yn cefnogi'r newidiadau a wnaed i brif gorff y ddogfen?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau sy'n gysylltiedig â'ch ymateb, defnyddiwch y gofod hwn i ymhelaethu.

Mae'r Rhestr Termau a'r Cyfeiriadau yn ymddangos yn ddigon clir.

Atodiad 2 – croesewir y newid o radd B i radd C o ran Mathemateg, Saesneg Iaith neu Gymraeg Iaith. Nid yw gradd mewn arholiad bob amser yn adlewyrchu gallu rhywun i addysgu pwnc a'r hyn sydd bwysicaf yw 'y rhinweddau personol a deallusol priodol i fod yn athrawon ardderchog.' Cytunir â'r gosodiad 'O ran gofynion derbyn TGAU (neu gymhwyster cyfatebol), y safon sy'n bwysig, nid y dystysgrif.'

Efallai y byddai'n syniad rhoi rhai enghreifftiau o gymwysterau sy'n werth 12 pwynt UCAS.

Atodiad 3 – Mae'n ymddangos bod yr atodiad yn cefnogi'r newidiadau ym mhrif gorff y ddogfen

Ni ofynnir am farn ynghylch Atodiad 1 ac mae'r dudalen honno'n wag. A oes rheswm pam nad yw Atodiad 1 yn rhan o'r ymgynghoriad?

Cwestiwn 7 – A ydych chi'n cytuno bod cynnwys 'Atodiad 4: Darpariaeth AGA arbenigol yn y cyfnod cynradd ar gyfer ADY' yn amlinellu'n glir nodau Llywodraeth Cymru i bennu a oes unrhyw newidiadau'n ofynnol yn fframwaith AGA Cymru er mwyn diwallu anghenion ein dysgwyr sydd â'r anghenion dysgu ychwanegol mwyaf cymhleth a chefnogi eu dyheadau?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau sy'n gysylltiedig â'ch ymateb, defnyddiwch y gofod hwn i ymhelaethu.

Mae'n bwysig bod pawb sy'n cael ei hyfforddi i addysgu yn meddu ar y sgiliau i ymdopi ag anghenion arbennig disgyblion. Fodd bynnag, efallai fod rhai hyfforddeion yn dymuno arbenigo mewn addysgu disgyblion ag anghenion cymhleth. Mae'n hollbwysig fod gan ddysgwyr sydd â'r anghenion dysgu ychwanegol mwyaf cymhleth athrawon o'r radd flaenaf a fydd yn gallu cynnig y gorau posibl iddynt. Mae'r cynlluniau peilot a'r gwaith ymchwil a gynigir i'w weld yn mynd i'r afael â'r dyhead hwnnw a bydd yn ddiddorol gweld beth fydd deilliannau'r gwaith ymchwil a'r cynlluniau peilot.

Cwestiwn 8

Hoffem gael eich barn chi ar yr effaith y byddai'r Meini prawf diwygiedig yn ei chael ar y Gymraeg, yn enwedig ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Sylwadau ategol

Croesewir y ffaith bod yna gydnabyddiaeth i'r Gymraeg ac fe ddylai'r Meini prawf diwygiedig gael rhywfaint o effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Braff nodi fod 'y broses o roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith ynghyd ag annog ysgolion i symud ar hyd continwmm ieithyddol yn flaenoriaethau polisi'. Os ydynt felly yn flaenoriaethau, dylid cael lefel o atebolrwydd i sicrhau y bydd hyn yn digwydd ac rydym o'r farn fod angen mwy nag 'anogaeth' i ysgolion symud ar hyd continwmm ieithyddol.

Ymddengys fod y Meini prawf diwygiedig yn mynd i roi mwy o gyfleoedd i feithrin dwyieithrwydd ac y bydd mwy o gyrsiau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Nodir bod y safonau yn disgwyl 'ymrwymiad' gan hyfforddeion i feithrin eu sgiliau Cymraeg yn raddol. Sut y bydd hyn yn cael ei fonitro?

Ymddengys y bydd unrhyw adnoddau ar gael yn y Gymraeg ac y bydd cyfleoedd amrywiol i feithrin hyder hyfforddeion yn y Gymraeg a'u hannog i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae'r elfennau hyn yn faterion sydd i'w croesawu. Fodd bynnag, yr hyn sy'n achosi pryder yw a fydd yr elfennau hyn yn cael y sylw dyladwy o ran craffu a monitro? Rhaid cael sicrwydd bod yr elfennau hyn yn ddigon cadarn.

O gofio am y datblygiadau diweddaraf o ran canllawiau categoreiddio ysgolion, sy'n nodi isafswm o 15% o weithgareddau cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion categori 1 (ysgolion

lle mae'r Saesneg yn brif gyfrwng addysgu), mae cael staff addysgu mewn ysgolion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg yn bwysicach nag erioed, felly mae'n rhaid sicrhau bod yna graffu manwl ar y sefyllfa. Buasem yn disgwyl, felly, y byddai 'proffesiwn dwyieithog sy'n hybu'r Gymraeg' yn cael ei restru ymhlith y nodau ar gyfer y proffesiwn yng Nghymru (gweler tudalen 11).

Cwestiwn 9 – Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut y credwch y gallai'r Meini Prawf arfaethedig gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau ategol

Er mwyn sicrhau na fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, byddai angen ei gwneud yn ofynnol i bob athro yng Nghymru fod yn gwbl ddwyieithog.

Noder bod partneriaethau'n cael eu 'hannog' i symud ar hyd y continwwm ieithyddol. A yw 'annog' yn ddigon cryf? Ydy 'annog' yn sicrhau triniaeth nad yw'n llai ffafriol i'r Gymraeg nag i'r Saesneg. Sut mae modd monitro sefyllfa o 'anogaeth'?

Mae'n braf gweld bod y ddogfen yn nodi 'disgwyliadau ar gyfer prosesau myfyrio a datblygu athrawon drwy gydol eu gyrfa, gan gynnwys ymrwymiad i feithrin eu sgiliau Cymraeg yn raddol', mae'n bwysig bod rhywun yn monitro hyn. Fel arall, mae perygl gwirioneddol na fydd yn arwain at effeithiau cadarnhaol.

Nodir hefyd y 'dylai pob athro dan hyfforddiant gael o leiaf 35 awr o feithrin sgiliau Cymraeg bob blwyddyn fel rhan o'u rhaglen'. Mae'n bwysig bod hyn yn digwydd, bod hyn yn cael ei fonitro a bod safon benodol i'r hyfforddiant hwn.

Siom yw nodi mai dim ond 50% o'r holl sesiynau a arweinir gan SAUau sy'n gorfod bod yn y Gymraeg. Er mwyn peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, dylai 100% o bob cwrs fod ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Teimlir bod rhai cyfleoedd wedi'u colli o ran cryfhau statws y Gymraeg e.e. cynnwys penodol at y Gymraeg a datblygu sgiliau ieithyddol wrth gyfeirio at y modd y caiff 'anghenion datblygu staff eu nodi' (t.19), mwy o gyfeirio at ymchwil ym maes addysg

ddwyieithog, mwy o gyfeiriadau at y Gymraeg yn 4.3 wrth drafod rolau a chyfrifoldebau ysgolion partner.

Dylai pob ysgol bartner fod yn ymwybodol bod ganddi rôl i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a sicrhau bod yr hyfforddeion yn defnyddio cymaint â phosibl o'r iaith.

Dylid cyfeirio'n benodol at y Gymraeg hefyd o dan 4.3.2 'Staff yr ysgol a chyfrifoldebau athrawon dan hyfforddiant'. Dylai Ysgolion Partner Arweiniol fod yn ysgolion sy'n cael eu cydnabod am ddysgu ac addysgu o ansawdd uchel, gan ddangos arferion da o ran eu defnydd o'r Gymraeg.

Mae angen sicrhau bod y ddogfennaeth yn gadarn o ran y Gymraeg – nid yw ieithwedd fel 'annog' 'dyheu' yn cyd-fynd â'r ieithwedd a geir yn y ddogfen 'Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg' – geiriau fel uchelgais, ymrwymiad, sicrhau. Dywedir yn y ddogfen honno – ' Mae addysg yn ganolog i'n gweledigaeth, ond mae'n rhaid i ni sicrhau fod ein pobl ifanc yn gadael y system addysg yn barod i ddefnyddio'r iaith ym mhob cyd-destun ac yn falch o gael gwneud hynny.' A yw'r hyn a bennir yma yn gydnaws â hynny?

Beth am gydweithio rhwng y partneriaethau a'r Awdurdodau Lleol, er mwyn gwireddu targedau'r CYSGA?

Mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd 70% o holl ddysgwyr yn gadael addysg statudol yn 2050 yn siaradwyr Cymraeg. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon mae angen newidiadau radical o fewn y gyfundrefn addysg yng Nghymru ac mae angen sicrhau newidiadau mawr yn sgiliau ieithyddol y gweithlu. Wedi'r cyfan, dyna pwy fydd yn sicrhau bod gan y disgyblion y sgiliau ieithyddol a osodwyd yn darged. Er bod rhai arwyddion gobeithiol yn y meini prawf hyn, tybed a ydynt yn mynd yn ddigon pell, er mwyn sicrhau bod y targedau a osodwyd yn cael eu cyflawni? Mae'n hollbwysig fod athrawon yn cael eu paratoi ac yn cael yr adnoddau a'r gefnogaeth angenrheidiol. Nid yw'r targedau hyn yn mynd i gael eu gwireddu heb ymdrech, ymrwymiad ac arweiniad hollol glir a chadarnhaol.

Cwestiwn 10 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y gofod hwn i roi gwybod inni amdanynt:

Mae'r ddogfen hon yn cyfeirio at Hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru. Mae'n bwysig sicrhau bod pob cwrs sy'n digwydd yng Nghymru yn dilyn y meini prawf yma a bod gorfodaeth ar bob cwrs a gyflwynir yng Nghymru i baratoi ar gyfer addysgu yng Nghymru, gan ddilyn y meini prawf hyn.

Rydym yn croesawu'r datganiadau sy'n cryfhau safle'r Gymraeg ac yn nodi y dylai pob athro sy'n dilyn cwrs hyfforddi gael o leiaf 35 awr i feithrin eu sgiliau yn y Gymraeg. Ar hyn o bryd, mae rhai athrawon sy'n dysgu yng Nghymru wedi dilyn eu hyfforddiant yn Lloegr. Gan fod pwyslais ar hybu'r Gymraeg a chan fod y cwricwlwm yng Nghymru yn dra gwahanol i'r cwricwlwm mewn mannau eraill, credwn y dylai pawb sy'n addysgu yng

Nghymru fod wedi eu hyfforddi yng Nghymru, neu o leiaf fod wedi dilyn cwrs 'pontio' ar gyfer addysgu yng Nghymru. Dylai'r cwrs pontio gynnwys cwrs dwys yn y Gymraeg a dylai'r un disgwyliadau fod ar y rhai sydd wedi dilyn y cwrs pontio yma â'r sawl sydd wedi eu hyfforddi yng Nghymru o ran ymrwymiad i feithrin eu sgiliau Cymraeg yn raddol.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y we neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma:

